# 16. YR AIL YMADRODD - Gyda Mi

**Darllen:** Luc 24: 39-43

Ar ôl siarad gyda'i Dad ynglw'n â'r dorf, trodd Crist ei sylw oddi wrthynt at ei gyd-ddioddefwyr. Bu Iago ac Ioan yn awyddus i fod ar ei law chwith a'i law dde, ond cysgu a wnaethant yng Ngethsemane yn lle gwylio a gweddïo, gorffwys yn lle paratoi eu hunain i fynd gydag ef. Felly, nid disgyblion ond troseddwyr, nid cyfeillion a chefnogwyr oedd ganddo yn gwmni ar Galfaria, ond gelynion i'r chwith ac i'r dde a'r ddau yn ei watwar fel pawb arall.

Gwaeddodd un: *'Onid ti yw'r Meseia? Achub dy hun a ninnau!'* Ar ôl bod yn dawel dyma'r llall yn troi yn erbyn ei gyfaill gan alw arno i adael llonydd i'w cyd-ddioddefwr ar y groes ganol. "*Onid oes arnat ofn Duw, a thithau dan yr un ddedfryd? I ni, mae hynny'n gyfiawn, oherwydd haeddiant ein gweithredoedd sy'n dod i ni. Ond ni wnaeth hwn ddim o'i le.*" Wedyn, gan edrych ar y dyn yn y canol, dywedodd: '*Arglwydd, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas*.' Daeth ateb Iesu ar unwaith: '*Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys.*' Yn ôl yr Esgob Nathan Soderblom:[14] '*Cafwyd tair croes ar Galfaria, pob un yn wahanol iawn i'w gilydd: croes anobaith, croes edifeirwch a chroes iachawdwriaeth.'* Ni ofynnodd y troseddwr am y sedd orau. Digon oedd bod gyda Iesu - iddo ef, y troseddwr, ac i bawb sy'n caru Crist: "*Dof yn waglaw at dy groes; glynaf wrthi trwy fy oes*."[15] Yn ôl Emrys o Filan (374-397): "*Pa le bynnag y mae Crist, yno y mae bywyd ac yno y mae'r Deyrnas."*

**Gweddi:**

*Yn holl brofiadau bywyd, wedi eu haeddu ac heb eu haeddu,*
*ac yn nirgelwch angau,*
*O Arglwydd Iesu,*
*boed i ni dy gael wrth ein hochr,*
*a chaniata i'th addewid ein cynnal*
*ar hyd yr awr fwyaf tywyll. Amen.*